

6. NADOLIG CYNTAF Y LILI WEN FACH
(Nadolig)

Ar fore dydd Nadolig deffrodd y Lili Wen Fach yn obeithiol ei bod wedi tyfu'n dalach yn ystod y nos. Daliodd ei hanadl wrth godi ei phen. Ac oedd, roedd hi wedi cyrraedd y nod. O'r diwedd gallai weld i mewn i'r ystafell fyw o'i bocs ar sil y ffenest.

Roedd yn harddach nag a ddychmygodd erioed. Yno, yn y gornel, roedd coeden Nadolig, wedi ei haddurno â rhubanau a goleuadau bach disglair. Ar y byrddau roedd gwydrau sgleiniog. Ar y waliau roedd rhesi o gardiau lliwgar deniadol. Ac yna'r anrhegion – cymaint ohonynt – yn bentyrrau ar y llawr.

'Felly dyma Ddydd Nadolig. Anhygoel!' Yr oedd y Lili Wen Fach yn llawn rhyfeddod. 'Onid yw'n gyffrous?'

'Dim felly.' Ar ochr fewnol y ffenest roedd planhigyn cactws oedd yn swnio mor bigog ag yr edrychai. 'Pan wyt ti wedi gweld sawl Nadolig fel fi . . . wel . . . mae'n mynd yn ddiflas. Bydd eleni fel y llynedd a'r flwyddyn cynt a'r flwyddyn cyn hynny. Bydd yr ystafell yn llawer rhy boeth a swnllyd. Fe fydda i'n gorfod rhannu sil fy ffenest â rhyw blanhigyn gorliwgar gwirion ac yn cael fy ngorfodi i sgwrsio ag ef er mwyn bod yn gwrtais.'

'On'd wyt ti'n hoffi gweld dy deulu'n mwynhau eu hunain?' holodd y Lili Wen Fach.

‘Mwynhau eu hunain! Pwy roddodd y syniad yna yn dy ben di? Dydi’r teulu ddim yn mwynhau’r Nadolig fymryn mwy na finnau. Maen nhw wedi blino gormod ar ôl gweithio’n y siop. Y funud hon mae Mrs Jones yn y gegin yn meddwl sut gall hi oroesi’r holl halibalŵ a Mr Jones yn yr ystafell fyw yn cael gwydraid o chwisgi ac ennyd o heddwch.

Sigodd pen y Lili Wen Fach ryw ychydig. ‘Wel am drueni!’ Yna cododd ei chalon eto. ‘O leia fe fydd y plant yn mwynhau eu hunain. Edrych ar yr holl anrhegion yna.’

Wfftiodd Cactws. ‘Y llynedd doedd car rasio Gwion ddim yn gweithio oherwydd fod nam ar y teclyn rheoli o hirbell. Roedd Siân eisiau merlen ond chafodd hi ’run. Ac fe dynnodd Gwenan y babi ben doli newydd Mererid i ffwrdd. Fel arfer, daeth y cyfan i ben hefo’r plant wedi ffraeo a phwdu.’

‘Efallai y bydd pethau’n wahanol eleni,’ mwmiodd y Lili Wen Fach.

‘Fawr o beryg. Edrych, maen nhw ar eu ffordd i mewn nawr. Gwylia.’

Yn bryderus, gwyliodd y Lili Wen Fach wrth i Mr a Mrs Jones a’u perthnasau ddod i’r ystafell.

Oedd, roedd golwg flinedig iawn ar Mrs Jones.

Ac oedd, roedd golwg braidd yn sigledig ar Mr Jones. Ac o diar, roedd y perthnasau wedi dod â phlanhigyn ysgarlad ysblennydd mewn potyn yn rhodd.

‘Dyma ni unwaith eto!’ meddai Cactws yn bigog wrth i’w gydymaith newydd eistedd ochr yn ochr ag ef ar y sil.

Roedd y cyfan yn gymaint o siom fel na fynnai Lili Wen Fach weld mwy. Gwyrodd ei phen, yn drwm gan ddigalondid.

Aeth amser heibio. Stemiodd gwydr y ffenest. Aeth golau’r dydd yn wannach a gwannach. Cafodd y llenni eu cau.

‘Beth sydd o’i le, Lili Wen Fach? Rwyt ti’n edrych mor drist,’ daeth llais o rywle.

Cododd y Lili Wen Fach ei phen a gweld seren unig yn disgleirio fry uwchben.

‘Rwy’n drist,’ ochneidiodd. ‘Cefais fy siomi’n enbyd. Gydol yr wythnos bûm yn edrych ymlaen at Ddydd Nadolig ond nawr rwy’n

gweld nad oes neb yn ei fwynhau.'

'Neb yn mwynhau Dydd Nadolig! Chlywes i erioed y fath ffolineb. Mae'r sêr a'r angylion yn cael amser bendigedig. Rydyn ni'n treulio oriau ac oriau gerbron pyrth y nefoedd, yn addoli Arglwydd y bydysawd ac yn cofio.'

'Cofio beth?'

'Y Nadolig cyntaf. Cofio sut y daeth ef i fyw gyda phobl ar y ddaear. Lili Wen Fach? Wyddost ti beth? Rwyt ti'n welw ofnadwy. Wyt ti'n iawn?'

'Wedi cael sioc ydw i,' amneidiodd ei phen. 'Doedd gen i ddim syniad. Am Arglwydd y bydysawd, dwi'n feddwl. Dywed fwy wrthaf i.'

Buont yn siarad gydol y nos. Ebryn y bore roedd y Lili Wen Fach yn llawn cyffro. Fedrai hi ddim aros i ddweud wrth Cactws am holl ystyr y Nadolig.

O'r diwedd agorodd Mrs Jones y llenni.

'O Cactws, wnei di byth ddyfalu . . . '

Ond roedd gan y planhigyn ei stori ei hunan i'w rannu. 'Collwyd y cyflenwad trydan ddoe,' dywedodd wrthi. 'Yn union wedi i'r llenni gael eu cau. Aeth y golau i ffwrdd. Aeth y teledu i ffwrdd. Roedd y teulu'n flin dros ben a dweud y lleiaf.'

'Ti ddim yn dweud! Be wnaethon nhw?'

'Choeli di ddim. Wedi i bethau dawelu taniwyd dwy gannwyll, ac fe eisteddodd pawb i lawr yn y golau gwan a dyma'r plant yn perfformio drama am fabi'n cael ei eni mewn stabl. Wn i ddim be ddaeth drostyn nhw. Wedi'r cyfan rydyn ni'n sôn am deulu sydd byth yn tynnu'u llygaid oddi ar y teledu fel arfer. Ond wedi'r ddrama dechreuodd Mrs Jones ganu am fugeiliaid a doethion ac angylion a sêr tra cyfeiliai Mr Jones iddi ar y piano. Roedd yn eithaf. . .' Llyncodd Cactws ei boer. 'Wel, roedd yn wahanol p'run bynnag.'

'Felly, maen nhw'n gwybod wedi'r cyfan!' ebychodd Lili Wen Fach.

'Gwybod beth?'

'Am Arglwydd y bydysawd yn dod i'r ddaear.'

'Arglwydd y bydysawd! Paid â chellwair! Dwi ddim yn dy gredu di!'

‘Mae’n wir. Fe ddaeth i’r byd yn faban.’

‘Pryd?’

‘Y Nadolig cyntaf.’

‘Ond beth sydd gan *hynny* i’w wneud hefo *hyn*?’ poerodd Cactws yn bigog i gyfeiriad y goeden, y tinsel a’r cardiau.

‘Dwi ddim yn siŵr. Ond yr hyn sy’n dda yw fod y teulu wedi cofio’r gwir ystyr.’

‘Hen bryd hefyd,’ chwyrnodd Cactws ond yn llai pigog erbyn hyn.

‘Nadolig llawen, Cactws,’ gwenodd y Lili Wen Fach.

HYD: 4 munud

NEGES: Gwir ystyr y Nadolig

DARLLEN: Luc 2: 1–20